

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 240

Pris £1

Mis Rhagfyr 2021



Gaeaf Nova Scotia

**Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda**

Noson Anrhydeddu

Mae'n braf iawn cael y cyfle i ddiolch i rywun arbennig ond fe gafodd Merched y Wawr Cwm Rhymni y cyfle hyfryd hwnnw ar Dachwedd y 10fed. Ac nid i un person yn unig, ond i ddwy o aelodau ffyddlon y mudiad sydd wedi cyfrannu'n helaeth i fywyd Cymraeg a Chymreig ein bro.



Daeth criw teilwng i Gapel Tonyfelin, Caerffili, i weld Dorothy ac Eirlys yn cael eu hurddo'n swyddogol yn Llywyddion Anrhydeddus Cangen Cwm Rhymni. Oni bai am yr hen Gofid fe fyddai'r capel mawr wedi bod dan ei sang! Roedd yn bleser hefyd cael cwmni Jên Dafis, Trefnydd Rhanbarthol Merched y Wawr, i longyfarch y ddwy yn swyddogol ar ran y Mudiad.

Cawson ni glywed peth o hanes Dorothy ac Eirlys: y ddwy wedi bod yn rhan o dwf rhyfeddol addysg Gymraeg yn yr ardal hon, a hynny o'r dyddiau cynnar hynny pan oedd rhaid ymgyrchu i sefydlu'r unedau bychain hynny a dyfodd yn ysgolion ffyniannus a niferus.

Swyddog addysg yr ardal, Mr D. W. Davies, blaenor yng nghapel

Siloh, Ystrad Mynach, roddodd y gwahoddiad i'r ddwy i gymryd swyddi yn yr unedau arbrofol oedd yn cael eu sefydlu ar ddechrau'r 1960au. Galw heibio arnynt i'r tŷ a wnaeth Mr Davies yn y dyddiau anffurfiol hynny, a derbyniodd y ddwy athrawes ifanc y gwahoddiad – a'r her. Roedd yn rhaid i Eirlys ymdopi ar ei phen ei hun mewn un ystafell yn Ysgol Gilfach i gychwyn, gydag wyth o blant bach i'w dysgu a'u difyrru, heb unrhyw adnoddau ond bwrdd du a sialc. Roedd Alun, mab Dorothy, yn fabi bach ar y pryd, ond llwyddodd serch hynny i gynorthwyo Mrs Moira Davies yn Ysgol Gymraeg Caerffili, a oedd ar y pryd yn cael ei chynnal yn Senghennydd.

Sefydlwyd canghennau o Ferched y Wawr yn y cwm yn yr un cyfnod, un yng Nghaerffili ac un arall yn Ystrad Mynach, a bu Dorothy ac Eirlys yn aelodau ffyddlon ar hyd y blynyddoedd i'r Mudiad ac i'w hegwyddorion. Dangosodd y ddwy yr un ffyddlondeb i'w capeli - Bethel, Caerffili, i Dorothy a Brynseion, Ystrad Mynach, i Eirlys, a fu'n cynnal Ysgol Sul yn Gymraeg yno yn ddi-dor nes i'r capel hwnnw orfod cau yn gynharach eleni.

Cafodd Dorothy ac Eirlys bob o froets Merched y Wawr, o wneuthuriad Rhiannon, a thusw mawr o flodau yr un i fynd adre gyda nhw. Ond fe gawson nhw hefyd eu hanrhydeddu gyda datganiad gwych ar y delyn gan Megan, wyres Eirlys. Roedd yn brofiad cyfareddol i'r gynulleidfa gyfan - ac roedd pawb o'r farn ein bod wedi cael cyfle i glywed rhywun fydd yn serennu yn y byd cerddorol cyn bo hir.

Hyfryd hefyd oedd cael cyfle i edmygu doniau aelod arall o'r teulu: mae Sioned, chwaer Megan, yn ymddiddori mewn ffotograffiaeth, ac roedd arddangosfa o'i gwaith yn y capel hefyd.

Daeth y noson i ben mewn ffordd hollol draddodiadol hefyd - te a bisgedi yn y festri! Er bod rhaid defnyddio cwpanau papur a bisgedi wedi eu lapio, nid yw'r rhwystrau cyfoes yn ein rhwystro ni. Mae iaith, diwylliant ac ysbryd Cymru yn fyw ac yn iach yn ein cwm, ac mae'r clod a'r diolch am hynny yn eiddo i bobl fel Dorothy Morgan ac Eirlys Thomas. Braint yw cael cydnabod hynny a diolch iddynt am eu hymroddiad a'u dyfalbarhad.

NADOLIG

(efelychiad o gerdd John Betjeman)

Mae clychau'r Adfent gyda'r hwyr
yn gwahodd pawb i ddatlu'r Wyl;
canhwyllau 'nghyn ar ford a silff
yn groeso brwd i'r Uchelwyl:
a sain y garol yn crynhoi
y rheswm dros y paratoi.

Cribinnir clawdd a pherth a llwyn
am gelyn ac uchelwydd ir,
a'u plethu'n gain gan gelfydd law
i harddu holl eglwysir tir.
A phawb a ddwed ym mhob ryw fan
mor hardd ar fore'r Wyl yw'r llan.

Tafarn a thŷ yn fôr o liw
a'u byrddau'n llawn danteithion lu:
ar silff ben tân ceir cardiau fyrdd -
pob un yn dwyn cyfarchion cu.
A llawer Llan a Bryn a Rhos
sy'n sioe o olau gyda'r nos.

Pob siop yn denu'r prynwyr hwyr –
garlantau trwm a chlychau mân;
rhyw ddawnsuwr tlws ac engyl glân
sy'n dawel suo i swyn y gân.
Pob baner yn cyhoeddi'n glir –
'Nadolig llon i bawb trwy'r tir.'

Y fargen funud ola' i'r ferch,
a'r bechgyn drwg yn cofio mam.
Rhieni'r wlad yn gwario'n ffôl
rhag ofn i'r plantos bach gael cam.
Pob hosan fach yn llawn i'r top
o nwyddau gorau ffair a siop.

Ai gwir y gair? Ai gwir y gair?
yr hanes gwiw mewn ffenest liw
am faban gwan mewn preseb gwair
oedd fab i Fair a Mab i Dduw.
A ddaeth Creawdwr daer a ne
i'w ladd ar groesbren yn fy lle?

Ai gwir y gair? Ac os yw'n wir
datguddir yma gariad Duw,
a gwerthoedd nef ar gynnig maent
yn werthfawr rodd i'r rhai didduw.
Y groes a'i chysgod dros y crud
sy'n obaith bywiol i'r holl fyd.

Ac ni all cariad teulu clos
na lleddfu angen dyn a'i bwn,
na'r weddi daer o'r galon friw
gymharu â'r gwirionedd hwn –
yn fab i Fair daeth Duw ei hun
a byw fydd byth yng nghalon dyn.

Eirian Dafydd

“Dosbrth Wyn”

Nos Fercher, 1af o Ragfyr am 7:30

Cerddi'r Goron

Dewch i ymuno â ni am orig fach i drafod cynnyrch cystadleuaeth y Goron

I gael rhagor o wybodaeth ac i dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at Wyn
(JamesEW@caerdydd.ac.uk) neu'r Golygydd (benamarycwmni@yahoo.com).

Priodas Eluned a Ben

Ar brynhawn Sadwrn Hydref 23ain, yng nghwmni teuluoedd a chyfeillion, priododd Eluned Hollyman a Ben Pepler yng nghapel Tonyfelin Caerffili. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Denzil John ac Owain Thomas oedd wrth yr organ.

Bydd trigolion yr ardal yn adnabod Eluned fel merch i Helen a Dennis Hollyman, Ystrad Mynach ac mae Ben yn hannu o Wantage yn ardal y Cotswolds yn Lloegr.

Cyfarfu'r ddau yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Caerdydd, lle astudiodd Eluned y delyn a Ben y tiwba. Digon naturiol felly oedd bod cerddoriaeth yn rhan flaenllaw o'u gwasanaeth priodas. Cafwyd datganiadau hyfryd gan ffrindiau coleg y ddau, mewn cân, ar y delyn, ar y soddgrwth a'r ymdeithgan priodasaol ar yr utgyrn.

Fel rhan o'r gwasanaeth, cafwyd darlleniad o'r Ysgrhythur gan y brif forwyn briodas, Elan Llwyd a chyflawnodd Peter Greenwood ei rôl yntau hefyd fel y gwas priodas.

Ar ddiwedd y gwasanaeth cyflwynwyd englyn hyfryd i Eluned a Ben, wedi ei gyfansoddi gan Dr John Lloyd ar gyfer eu diwrnod arbennig.

“Yn sain y delyn gwêl uno'n deuddyn
a dydd llawn atgofion;
uniad dau dan groes yn Ton
yn gwlwm rhwng dwy galon.”

Wedi'r neithior yng ngwesty'r “New House” yng Nghaerdydd aeth Eluned a Ben ymlaen i fwynhau eu mis mêl ar ynys Arran yn yr Alban.

Mae'r ddau bellach wedi ymgartrefu yn Ffynnon Taf. Mae Eluned yn gweithio i Lywodraeth Cymru ac mae Ben yn athro cerddoriaeth mewn ysgol uwchradd dros y ffin yn Lloegr.



Rhiw'r Perrai ar Dân

Cyflwyniad yn Saesneg
Cwmni Cwm Ni

*Y tân mawr ddifethodd y castell union 80
mlynedd yn ôl*

Nos Iau, Rhagfyr 9^{fed}

Drysau ar Agor 7:30

Perfformiad 8:00

United Services Club, Machen

Mynediad £5 - £6

Bwyd a Dawns



Merched y Wawr Cwm Rhymni



Nos Fercher, Tachwedd yr 16eg, cawsom noson ddifyr iawn dan ofalaeth un o'n cyd-aelodau, Judith Griffiths, a'n tywysodd ni o gwmpas lle llawn hanes a golygfeydd godidog – Nova Scotia.



Dysgom lawer am hanes, pobl, diwylliant a daearyddiaeth Nova Scotia drwy ddisgrifiadau manwl Judith a ffotograffau a fideos effeithiol iawn. Dysgom hefyd mai talaith lawn fforestydd a llynnoedd yw hi.

Symudodd Sarah, merch Judith, a'i gŵr i Nova Scotia yn 2008. Erbyn hyn mae ganddynt ddau blentyn, Max a Myia, ac mae Judith a'i gŵr Wynn wedi ymweld â nhw nifer o weithiau dros y blynnyddoedd. Maent wedi bod yno yn ystod pob tymor o'r flwyddyn ac wedi profi pob math o dywydd - heulwen danbaid 30 gradd Celsius ac uwch, eira rhewllyd minws 29 gradd Celsius a chorwyntoedd digon cryf i ddymchwel coed.

Mae gan Nova Scotia dirlun deirgwaith yn fwy na Chymru ond poblogaeth deirgwaith yn llai. Fforestydd yw 77% o dir Nova Scotia, tra bo dim ond 10% o'r tir yn dir amaethyddol. I ddyfynnu Judith, "Fforestydd, fforestydd a rhagor o fforestydd, lle bynnag chi'n mynd!"

Mae Sarah a'i theulu wedi ymgartrefu yn Caledonia yng nghanol Nova Scotia, tref a chanddi arwydd yn datgan: "The Middle of Everywhere"! Er nad yn dref fawr, mae'n lle bywiog â digon o gyfleusterau gan gynnwys Neuadd Dân; Canolfan Argyfwng ar gyfer rhoi cymorth yn ystod cyfnodau o sychder neu dywydd garw; Neuadd Gweithgareddau; Hwb Busnes a chaffi gyda 'Ride Through' ar gyfer cwsmeriaid ar gefn ceffyl neu mewn cerbyd. Ond mae'r heddwad agosaf yn 48 cilomedr i ffwrdd!

Prif waith Caledonia oedd y felin goed ond fe'i caewyd ym 2014. Erbyn hyn, y prif ddiwydiannau yw amaethyddiaeth, tyfu llus a choedwigo.

Dangosodd Judith ffotograffau o gartref Sarah - tŷ pert iawn gyda gardd fawr yn ymylu ar fforest a llyn a cheirw yn pori gerllaw. Nid nepell o gartref Sarah mae parc cenedlaethol Kejimikujik sydd â llyn hardd a 18 o lwybrau cerdded. Ar hyd y llwybrau ceir llawer o betroglyphau yn dystion i fodolaeth y bobl gynhenid, y Mi'kmaw.

Llyn Kejimikujik yw llyn fwyaf y parc. Mae'n un o'r 6,600 o llynnoedd sy'n 1 hectar neu'n fwy yn Nova Scotia - gwlad y llynnoedd yn ogystal â gwlad y fforestydd! Dangosodd Judith nifer o ffotograffau o'i theulu yn mwynhau eu hunain wrth nifer o llynnoedd - yn nofio yn y dŵr croyw neu'n cael picnic ar un o'r traethau ar lan y llyn.

A sôn am draethau, cyfeiriodd Judith at Richard Osman yn datgan ar 'Pointless', "*You don't go to Canada for the beaches.*"

"I'r gwrthwyneb!" meddai Judith sy wedi treulio llawer o ddiwrnodau hapus gyda'r teulu ar dywod gwyn nifer o draethau glan môr Nova Scotia.



Soniodd Judith am rai o'r dathliadau sy'n digwydd yn flynyddol yn Nova Scotia - diwrnod y Morladron yn Liverpool; Wharf Rat Rally yn Digby, 'Prifddinas Y Cregyn Bylchog', a phoblogaeth y dref yn chwyddo o 2000 i 50,000 yn ystod yr ŵyl; ac wrth gwrs 'Diwrnod Canada', Gorffennaf 1af. Ond nid yw pob gŵyl yn dathlu digwyddiad hapus. Ar Fedi 30 2021, cynhaliwyd Gŵyl Banc newydd, sef 'Diwrnod Gwirionedd a Chymodi / *Truth and Reconciliation Day*' i anrhydeddu plant y bobl gynhenid a gymerwyd oddi wrth eu teuluoedd a'u cymunedau a'u gosod mewn ysgolion preswyl Cristnogol i'w hamddifadu o'u crefydd, iaith a diwylliant. Darganfuwyd miloedd o gyrff y plant hyn mewn beddau dienw yng ngerddi'r ysgolion. Erbyn hyn, mae'r hanes hwn yn rhan o gwricwlwm ysgolion Canada. Gwelsom luniau o blant Caledonia yn dilyn llwybr ym mharc Kejimikujik a thudalennau o'r llyfr hanes '*Every Child Matters*' wedi'u gosod ar hyd y llwybr i'r plant gael darllen am y cyfnod cywilyddus hwn yn hanes Canada wrth gerdded drwy'r parc. Dyna ffordd dda i ddysgu hanes.

Dros y blynyddoedd mae Judith a Wynn wedi ymweld â nifer helaeth o drefi diddorol ac yn eu plith Lunenburg, sydd â statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, ac yn esiampl o hen dref Brydeinig, Liverpool lle mae'r afon Mersey yn llifo i'r lwerydd a Welshtown, ardal yn nhref Shelburne, lle mae 'na amgueddfa sy'n dathlu hanes mewnfudwyr o Gymru yn y ddeunawfed ganrif. Yn anffodus, oherwydd Covid, roedd yr amgueddfa ar gau. Rhywbeth i'w wneud y tro nesaf iddyn nhw ymweld â Nova Scotia. Fel cymaint o drefi glan môr eraill yn Nova Scotia, pysgota oedd prif ddiwydiant y trefi uchod.

Gorffennodd Judith ei chyflwyniad drwy sôn am ei hoff le yn Nova Scotia, sef Halifax, prif ddinas y dalaith a chanddi harbwr naturiol sy'n ail o ran maint i harbwr naturiol mwya'r byd, Sydney. Dangosodd hi nifer o luniau o lefydd pwysig y ddinas gan gynnwys y gaer ar siâp seren ar Citadel Hill, goleudy Peggy's Cove a llwybr bordiau Halifax sy'n 3 chilomedr o hyd. Gwelon ni hefyd lun o'r 'Last Steps Memorial' a anrhydeddai filwyr Nova Scotia ymladdodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Llosgwyd olion troed ym mhren y llwybr i anfarwolïr man lle safodd llawer o'r milwyr hynny ar dir Canada am y tro olaf.

Aeth Judith â ni, drwy gyfrwng ffotograffau, i Amgueddfa Forwrol yr Iwerydd, i weld arddangosfa am longdrylliad y Titanic ar Ebrill 15 1912. Gwelon ni lun dirdynol o esgidiau plentyn dienw, 19 mis oed a foddodd yn y drychineb. Darganfuwyd ei gorff yn y môr a rhoddodd morwyr Halifax ef mewn bedd â'r geiriau hyn ar y garreg fedd: '*Erected to the memory of an unknown child.*' Ond, yn 2007, profodd tystiolaeth DNA mai Stanley Leslie Godwin o Wiltshire oedd y plentyn bach hwnnw. Yn yr arddangosfa, mae hefyd plac yn cofnodi enwau'r teithwyr a foddodd ac, er syndod iddi, mi welodd Judith yr enw E. Boughton ar y plac, sef ewythr un o'i ffrindiau coleg.



Yn 2017 roedd teulu'r Griffiths ymhlith y miliynau o bobl a ymwelodd â Halifax i weld Regatta y Llongau Tal ac mi gafwyd diwedd glo trawiadol i gyflwyniad Judith - fideo o danau gwyllt yn ffrwydro'n llachar dros Halifax i nodi diwedd y Rigatta.

Cafodd Judith ganmoliaeth dwymgalon am ei chyflwyniad diddorol a chynhwysfawr iawn ac am ansawdd a chynnwys y ffotograffau trawiadol. Teg dweud bod ei chyflwyniad wedi codi chwaint ar nifer ohonom ni i ymweld ryw ddydd â Nova Scotia.

Caroline Davies

Rhywbeth Rhwydd Ofnadwy!

A wyddoch chi taw mis arbennig y rhai sy'n hoffi cnau daear (*peanuts*) oedd mis Tachwedd? Na finnau chwaith, hyd nes i fi ddarllen yn y *Western Mail* taw dyma fis arbennig y cnau hyn. Rwy wedi cael fy nysgu i wirio pob gosodiad, a phan wnes i hynny ddysgaus taw mis y bobl ydyw, ac nid y cnau eu hun. Ond erbyn hynny roeddwn eisoes wedi gwneud y bisgedi blasus hyn!

Dyma rysait rhyfeddol o hawdd, ac ni fyddaf yn ei gaethiwo i fis Tachwedd yn unig. Mae'r cynhwysion yn y siopau bob dydd o'r flwyddyn, ac yng nghegin pob un ohonom hefyd, rwy'n siwr.

Felly yr hyn sydd eisiau arnoch yw pot 200g o fenyn cnau daear, 175g o siwgr man (*caster sugar*) ac un wy mawr.

A dyna ni. Rhwch nhw i gyd mewn powlen, cymysgwch nhw'n dda - byddwch yn digalonni ar y dechrau, ond fe ddaw popeth at ei gilydd i ffurfio toes yn eitha clau: nerth braich sydd eisiau!

Gwnewch beli bach o'r toes, tua maint pelen pingpong, a rhwch y rheiny ar bapur pobi mewn tun fflat. Gadewch ddigon o le rhwng pob pelen – mae nhw'n hoffi ymestyn eu hunain - a rhwch nhw yn y ffwrn (180C/Nwy 4) am ryw 10 munud.

Fel y gwelwch, rwy wedi eu haddurno gydag un gneuen yr un, ond mae rhai yn gwasgu patrymau iddynt gyda fforch ford - dewiswch chi eich dull addurno eich hun.

Pan fydd y bisgedi yn dechrau lliwio (10-12 munud), tynnwch nhw o'r ffwrn. Rhwch funud neu ddwy iddynt galedu ychydig - cyn eu codi o'r tun a'u rhoi i oeri.



Prosiect Blancedi Nadolig

Mae Canolfan y Glowyr Caerffili ers sawl blwyddyn bellach wedi apelio am wirfoddolwyr i weu petruallau sydd wedyn yn cael eu gwneud yn flancedi a gyflwynir i wahanol elusennau. Mae'r prosiect wedi mynd o nerth i



nerth eleni ac mae'r gwirfoddolwyr wedi croesawu'r cyfle i gyfrannu at brosiect mor werth chweil sydd wedi eu cadw i fynd trwy adeg lle roedd mwy o amser gartref a llai o gyfleoedd i weld eraill a chymdeithasu. Maent i gyd wedi mwynhau bod yn rhan o fenter leol sydd hefyd yn helpu eraill.

Eleni, rydym wedi derbyn bagiau o betryllau wedi'u gwau o gyn belled â Gwlad yr Haf, y Rhondda a Chaerdydd, llawer, llawer mwy gan wirfoddolwyr lleol. Mae dros 40 o bobl o bob oed wedi cymryd rhan, o weuwyr a chrosywyr yn eu 20au a'u 30au i'r rheini sy ymhell yn eu

80au. Mae mwy na 60 blanced wedi eu gwau a'u crosio at ei gilydd.

Fore Gwener, Tachwedd 26, cyflwynodd Hefin David, AS Caerffili, y blancedi i Llamau, yn cefnogi Llochesi Merched, ac i'r prosiect Warm Hug, rhan o'r Rhwydwaith Rhieni yng Nghaerffili. Mae un flanced hefyd wedi'i rhoi i'r teulu cyntaf o ffoaduriaid o Afghanistan i gael eu cartrefu ym Mwrdeistref Caerffili, i'w croesawu.

Dywedodd Hefin David: 'Rydw i wrth fy modd yn cyflwyno'r blancedi yma i Llamau a'r Rhwydwaith Rhieni ar ran gwirfoddolwyr Canolfan y Glowyr. Mae'r ymdrech a'r ymroddiad a roddwyd i wneud y blancedi yn anhygoel, mae'n symbol o holl bwrpas y Glowyr. Mae'n bleser bod yn rhan o'r prosiect ac i glywed mwy am y grwpiau fydd yn derbyn y blancedi.'

Bloreng

Un o fy hoff lefydd i gerdded ydy'r Bloreng, ardal llawn hanes diwydiannol. Rhostir agored hardd. Golygfeydd hyfryd.

Mae'n 1,841 troedfedd uwch lefel y môr, felly rydych chi'n anadlu awyr iach ffres y mynydd. Mae rhwng Blaenafon a'r Fenni ac os ydych chi'n cyrraedd yma o gyfeiriad Blaenafon mae 'na ddau faes parcio ar eich ochr dde. Y cyntaf ydy maes parcio'r Foxhunter ac yr ail ydy maes parcio Keepers Pond, sef Pwll Pen-ffordd-goch yn Gymraeg.



Bedd Foxhunter

Queen Victoria. Dim ond adfeilion sydd yna nawr. Mae'n rhaid ei bod hi'n anodd iawn byw yma yn enwedig yn y gaeaf o ystyried bod y bobol yn byw tua 1800 troedfedd uwch lefel y môr.

Heb fod ymhell o Garnddyrus ar ochr dde'r ffordd i'r Fenni mae'r dafarn y Cordel Country Inn. Gwnaethpwyd yr holl ardal hon yn enwog gan Alexander Cordell yn ei lyfr, *'Rape of the Fair Country'*.

Rhedodd Hills dramffordd o'i weithiau haearn ym Mlaenafon, trwy dwnnel Pwll Du, heibio i chwareli Tyla a Phwll Du. Yna i efail Garnddyrus i'w gyflenwi â haearn bwrw, ac yna, cario haearn gyr oddi yno i lawr i lanfa Llanffwyst. Roedd y dramffordd hefyd yn cludo calchfaen o'r chwareli i'w weithiau haearn ym Mlaenafon a hefyd yn cludo glo a chalcfaen i lawr i'r iard lo, a'r odynau calch yn Llanffwyst.

Fy hoff ffordd o gyrraedd copa'r Bloreng ydy i ddechrau o'r maes parcio yn Llanffwyst, croesi'r ffordd ac yna mynd i lan lôn gul heibio i eglwys Saint Faiths. Yno mae'r meistr haearn Crawshay Bailey wedi'i gladdu. Ac yn ôl pob sôn mae Alexander Cordell wedi'i gladdu yno hefyd.



Pwll Pen-ffordd-goch

Cafodd maes parcio'r Foxhunter ei enwi ar ôl Foxhunter, ceffyl enwog Syr Harry

Llewellyn a enillodd fedal aur yng Ngemau Olympaidd Helsinki ym 1952. Bu farw Foxhunter ym 1959 a rhoddwyd ei sgerbwdd i Goleg Brenhinol y Milfeddygon a chladdwyd ei groen ar y Bloreng. Nid yw ei fedd yn bell o'r maes parcio.

Ar ôl iddo farw ym 1999 gwasgarwyd lludw Syr Harry Llewellyn dros y Bloreng gan ymuno â'i geffyl annwyl.

Heb fod ymhell o'r maes parcio mae 'na ddarn noeth o dir sy'n dangos effaith *hushing*, y broses o ddefnyddio llif dŵr i olchi'r pridd uchaf i ffwrdd gan ddatgelu gwythïen haearn oddi tano.

Cafodd y maes parcio arall, Keeper's Pond, ei enw oherwydd bod bwthyn ciper rhostir y ffesantod gerllaw. Adeiladwyd y pwll yn gynnar yn y 19eg ganrif i ddarparu dŵr i efail Garnddyrus.

Erbyn 1840 roedd tua 450 o bobol yn byw o amgylch gefail Garnddyrus, yn ogystal â thafarn o'r enw y



Effaith hushing

Ar ben y lôn rydym ni'n mynd trwy dwnnel Llanffwyst, sy'n mynd â ni dan y gamlas, ac yna'n wynebu dringfa serth iawn lan yr inclein a ddaeth â thramffordd Hills i lawr i'r lanfa. Mae'r inclein yn cwmpo tua 800 troedfedd mewn tair rhan. Roedd yn inclein cytbwys, pwysau'r wagenni llawn yn mynd i lawr un ochr yn tynnu'r rhai gwag yr ochr arall i fyny.

Mae'r inclein yn dringo lan Cwm Craf trwy goed Glebe, ac ar ôl cyrraedd top yr inclein mae tramffordd Hills yn troi i'r dde ar ei ffordd i efail Garnddyrus. Ond mae rhaid i ni droi i'r chwith yma. Nawr gallwn gael seibiant ar ôl ein dringfa serth lan yr inclein. O'n blaen ni nawr mae taith gerdded ddymunol ar hyd llwybr sydd fwy neu lai yn wastad, ac ar ôl tua milltir byddwn ni'n cyrraedd y Punch Bowl.

Pant ydy'r Punch Bowl a gafodd ei gerfio allan yn Oes yr Iâ. Nawr mae 'na bwl yn y pant, wedi'i amgylchynu gan goed ar bob ochr; mae'n le heddychlon iawn, lle braf i eistedd i lawr, bwyta'ch brechdanau a mwynhau'r tawelwch mewn lle mor dlws.



Y Punch Bowl

Ond nid oedd bob amser yn le tawel. Ar un adeg roedd yn lleoliad ar gyfer ymladd migwrn noeth, ac aeth un ornest ym 1889 rhwng David Rees o Nant y Glo a William Williams o Frynmawr ymlaen am 1 awr 42 munud am bwrs o £10.

Ar un cyfnod cloddiwyd y pant trwy chwarela i dyrchu tywodfaen coch fel ffynhonnell dywod ar gyfer gwneud haearn ym Mlaenafon a Garnddyrus.

Ar ôl cael seibiant yn y lle hardd hwn rydym yn gadael a dilyn dringfa eithaf serth trwy ardal goediog. Ar ôl ychydig rydym ni'n cyrraedd llwybr sy'n ein harwain ni lan trwy'r rhedyn i gopa'r Bloreng. Mae copa'r Bloreng yn eiddo i glwb hongian gleidio a pharagleidio De-ddwyrain Cymru. Fe'u gwelir yn aml iawn yn yr awyr o ben y mynydd; maen nhw'n gallu gleidio o gopa'r mynydd i lawr i Ddôl y Castell yn y Fenni. Dyma le cynhaliwyd yr Eisteddfod yn 2016.

Mae 'na olygfeydd ardderchog o'r fan hyn: y Mynyddoedd Du, Pen y Fâl a'r Ysgyryd Fawr sy'n cael ei hadnabod yn lleol fel, *'the Holy Mountain'*. Y rheswm am hyn ydy oherwydd ei gysylltiad â chroeshoeliad Iesu. Yn ôl y stori cafodd yr Ysgyryd ei daro gan fellt yn union yr un amser ag y bu farw Iesu ar y Groes, a syrthiodd rhan o'r mynydd i ffwrdd.



Stori arall ydy bod Jack o Kent wedi dadlau gyda'r Diafol, pa un oedd yr uchaf, Pen y Fâl neu fryniau Malvern? Enillodd Jack o Kent y ddadl, Pen y Fâl oedd yr uchaf. Aeth y Diafol yn wyllt, casglodd e ffedog enfawr o bridd i arllwys ar ben y Malverns i'w gwneud yn uwch. Ond wrth iddo fynd dros yr Ysgyryd torrodd llinynnau'r ffedog a chwympodd yr holl bridd ar y mynydd gan ffurfio twmpath ar un pen o'r mynydd.

Gan ddilyn y llwybr o'r fan hyn trwy'r rhostir mwy na lai gwastad, rydym yn cyrraedd y pwynt *trig* a thomen o gerrig sy'n weddillion siambr gladdu o'r oes efydd. Ac oddi yma, dim ond pellter byr yw e i fedd Foxhunter a'r maes parcio.

*Llwybr i weddillion siamber
gladdu o'r oes efydd*

Malcolm David

Ysgol Gynradd Gymraeg y Castell



Pencampwyr Trawsgwlad Sir Caerffili

Llongyfarchiadau fil i'n timoedd trawsgwlad ar eu llwyddiant ysgubol yn y gystadleuaeth sirol a gynhaliwyd ar y 14eg o Hydref.

Ar ôl rhedeg fel y gwynt, gan gefnogi ei gilydd a'u ffrindiau ar draws y cwm, roedd nifer fawr o'n plant wedi dod o fewn y deg cyntaf ym mhob ras.

Ond beth fyddai'r canlyniadau terfynol ar gyfer y pedwar tîm tybed?

Wel....

Tîm Merched Blwyddyn 3 a 4 – 1^{af}

Tîm Merched Blwyddyn 5 a 6 – 1^{af}

Tîm Bechgyn Blwyddyn 3 a 4 – o fewn y deg uchaf

Tîm Bechgyn Blwyddyn 5 a 6 – 1^{af}



STEM 'ti Syniad?

Dyma thema newydd yr holl ysgol ar gyfer y tymor hwn wrth i'r plant archwilio ein byd gwyddonol a thechnolegol.

Er gwaethaf heriau Covid-19, mae'r plant wedi derbyn profiadau diri' wrth gydweithio â chwmnïoedd technolegol lleol. Maent wedi arbrofi a dysgu am rymoedd wrth adeiladu ceir rasio fformiwla 1, awyrennau papur, rocedi chwim i fynd ar daith i'r bydysawd a robotiaid trydanol. Heb sôn am ymchwilio i'r byd naturiol o'n cwmpas yn ein hardal leol.

Tybed a fydd un o'n plant yn dilyn esiampl ein Cymry enwog sy'n serennu yn y maes?

Rhisiart Morgan Davies (Ffisegydd), Iolo Williams (Naturiaethwr), William Frost (Dylunydd Awyren Gynnar), Eirwen Gwynn (Gwyddonydd ac Ymchwilydd Pelydr X) a Dr Rhys Thomas (Meddyg a Dylunydd Peiriant Anadlu Covid-19)



Môr-ladron Y Castell yn cystadlu ar raglen deledu 'Ahoi'.



Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân

Prosiect Opera

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd plant Blwyddyn 5 a 6 yn cydweithio gydag aelodau o Opera Genedlaethol Cymru ar raglen gymunedol i hyrwyddo canu, perfformio a mwynhad o'r celfyddydau.

Erbyn hyn, mae plant Blwyddyn 6 wrth eu boddau yn canu 'Carmen' gan Bizet.

Cawsant fodd i fyw wrth wyllo perfformiad byw gan y Gerddorfa Genedlaethol a'r cwmni opera byd-enwog o lwyfan Canolfan y Mileniwm.

Rydym yn edrych ymlaen at ddilyn datblygiad y prosiect o dan arweiniad Dyfed a Zoe.



SCAN ME

Prosiect llafar gyda Mr Rhodri Harries

Fel clwstwr o ysgolion cyfrwng Cymraeg y cwm, rydym yn cydweithio gyda Rhodri ar brosiect llafar a chân i ail-gydio yn yr iaith wedi misoedd hir o ddysgu o bell, heb y cyfle i siarad yr un gair o Gymraeg i'r rhan fwyaf o'n dysgwyr.

Cydnabuwyd yr angen i drochi'r plant yn yr iaith unwaith eto er mwyn sicrhau parhad yn safonau ieithyddol uchel ysgolion y cwm.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Rhodri am gyfansoddi caneuon digrif, cerddi sy'n clymu'r tafod a chreu adnoddau deniadol iawn sydd o fudd anferthol i Gymry ifanc y cwm. Mae hwyl a sbri a thalentau unigryw Rhodri yn cael effaith anferthol ar ein plant.

Dathlwyd diwrnod Shwmae, Su'mae eleni o dan arweiniad Dreigiau'r Castell sy'n gyfrifol am hyrwyddo defnydd o'n mamiaith, traddodiadau Cymreig a'n treftadaeth.

Cawsom lawer o hwyl a sbri yng nghwmni ein gilydd gan ganu, dawnsio a pharablu fel pwll y môr trwy'r dydd.

Hefyd, rydym yn cydweithio â Mark Griffiths (Stiwdiobox) i sefydlu radio'r Castell. Bu plant Blwyddyn 3 a 6 wrth eu bodd yn sgriptio a recordio podleidiadau i'w cyfoedion a chymuned ehangach yr ysgol.

Shwmae Su'mae!



Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân

Rhoi'r Ardd i Gysgu

Mae'r gaeaf yn cau amdanom nawr: mae'n dywyll erbyn amser te, os nad ynghynt; lliwiau cyfoethog y coed yn chwythu i ffwrdd, a'r oerfel yn dechrau cydio... Rwy'n falch i ddweud bod y cêl yn dal yn ei ogoniant - ac yn fwy balch fyth 'mod i wedi darganfod ei fod yn bosibl i ychwanegu cêl at bob math o brydiau...cawl, caserol, cyri: os mae'n dechrau gydag c, fe fydd cêl ynddo!



Ond mae popeth arall wedi dod i ben, ac er bod cwpl o wynwns gen i i'w codi o hyd, mae gwaith tacluso'r ardd ar gyfer misoedd y gaeaf wedi hen ddechrau. Gweddillion blodau'r haf wedi eu clirio i ffwrdd, llwyni wedi eu tocio, dail marw wedi eu disbyg (= disgub) i ffwrdd - a hynny sawl gwaith erbyn hyn. Dyma ddyddiau byr a thrist yn yr ardd, wrth i holl dyfiant y flwyddyn grino ac edwino o flaen eich llygaid.

Ond cysgu bydd yr ardd dros y misoedd nesaf. Nid yw wedi marw: mae bywyd yn y pridd. Er bod y pys per wedi blodeuo unwaith ac am byth, a'r cennin a'r bresych wedi cael eu bwyta, mae blagur ar y camelia yn arwydd sicr o flodau eto ddechrau'r flwyddyn nesaf. Mae blodau eraill y gwanwyn hefyd yn paratoi am eu cyfnod o ogoniant.

Er fy mod yn hwyr yn eu rhoi yn eu potiau, mae'r tiwlipiaid a'r cennin pedr wedi cael eu rhoi i'r gwely erbyn hyn. Tybed a gaf i'r wledd o flodau a addewir gan y pasedi? Amser a ddengys, ond rwy'n hoff iawn o'r syniad bod y blodau yn cysgu yn y pridd, ac yn tyfu'n dawel fach yn y tywyllwch. Ac un bore flwyddyn nesaf, byddaf yn sylwi ar y dail cyntaf yn dechrau ymddangos ... ac yn trio 'ngorau glas i gofio beth a blannais, ac ymhle!

Cynorthwydd Achlysurol (Banc Staff)

Cylch Meithrin Tonyfelin, Caerffili

Cyflog: Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Lleoliad: Capel Tonyfelin, Heol Tonyfelin, Caerffili CF83 1PA

Mae'r Cylch Meithrin yn chwilio am gynorthwydd dibynadwy ac egniol sy'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm i ymuno â staff y cylch.

Gofynnir am brofiad a chymhwyster blynyddoedd cynnar cydnabyddedig ar o leiaf Lefel 2 i ofalu am blant.

Dylai ef/hi fod yn rhugl yn y Gymraeg neu yn ddysgwr ymroddedig.

Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio cysylltwch drwy e-bost - tonyfelintrustees@gmail.com

Dyddiad Cau: 12/12/2021



Colofn Dafydd Islwyn

Yn y Teifi Seid, 6ed o Chwefror 1948, llongyfarchwyd T. Llewelyn Jones, Brown Hall, Llangrannog, am ei lwyddiant mewn eisteddfodau Cymru benbaladr. Dywedwyd fod ymhlith ei Gadeiriau, Cadair Eisteddfod Talaith Gwent, Pontllanfraith, 1947. Ceir llun o'r Cadeirio ym "Mro a Bywyd T. Llew Jones" (2010). Crwys oedd â gofal y seremoni. Erbyn 1950 yr oedd ef yn byw yn Nôl Wylan y pentref, pan glywodd ei fod wedi ennill cystadleuaeth yr englyn yn y Genedlaethol, Caerffili. Ymhen wyth mlynedd yr oedd yn ennill y Gadair yn y Genedlaethol am ei awdl Caerllion ar Wysg ac yn byw yn nhŷ'r ysgol Coed y Bryn, Llandysul, ers mis Ionawr 1958. Erbyn canol saith degau'r hen ganrif yr oedd yn byw yn Nolnant, Pont Garreg, ger Llangrannog. Yno y bu farw ar y 9fed o Ionawr 2009 yn 93 oed.

Daw pedair ffaith am ei gysylltiad â Chwm Rhymni yn sydyn i'r co'. Un deg pump o Fehefin 1976 ymwelodd ag Ysgolion Cymraeg Cwm Rhymni, tair ohonynt. Trefnwyd iddo hefyd ymweld ag Ysgol Gynradd Trelewis. Bu ef ac Iorwerth Thomas, y prifathro, yn dwyn i gof eu cyfnod yn y Dwyrain Canol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. T. Llew Jones oedd prif feirniad yr awdl yn y Genedlaethol, Cwm Rhymni, Awst 1990. Roedd wedi teimlo i'r byw na chafodd feirniadu yn adran llenyddiaeth y Genedlaethol, Casnewydd 1988! Nos Sadwrn y 14eg o Fehefin 2003 mwynhaodd aelodaeth Cylch Llên Bro Elyrch ei gwmni ef a'i fab lolo dros ginio yn y Crown, Llwyn Dafydd.

Derbyniwyd tri chan pedwar deg saith englyn yng nghystadleuaeth y Genedlaethol, Caerffili, 1950, y nifer fwyaf yn hanes y Genedlaethol. Petai T. Llew Jones yn dwyn i gof heddiw yr eisteddfod honno, mae'n siŵr y buasai'r nifer yn tynnu am fil! Ei ffugenw yn y Gystadleuaeth oedd "lolo", enw ei ail fab a oedd yn tynnu am ei dair oed ar y pryd. T. Llew osodwyd yn ail yn y gystadleuaeth hefyd. Ei ffugenw oedd "Banc y Felin". Synnaf fod un oedd wedi priodi i deulu o Annibynwyr wedi defnyddio enw capel yr Hen Gorff yn Llangrannog fel ffugenw!

Ganwyd lolo Ceredig ar yr ail o Awst 1947 yn ail fab i T. Llew a Margaret Enidwen Jones ac yn frawd i Emyr Llywelyn, y cenedlaetholwr adnabyddus. Bu farw lolo ar y 6ed o Fedi 2021 yn 74 oed. Wrth ei gofio mae rhywun yn cofio'r cymeriad tawel, hoffus, dibynadwy oedd yn llawn hiwmor naturiol. Yn 2002 cyhoeddodd T. Llew Jones "Fy Mhobl I", cyfrol 46 yn rhestru ei gyhoeddiadau Cymraeg. Ym mhennod ola'r gyfrol mae'n gwerthfawrogi cefnogaeth lolo. Cofnododd: ".... fy mab sy'n byw gartref gyda mi, ac yn fawr ei ofal amdanaf yn fy henaint. Mae ef yn chwaraewr gwyddbwyll gyda'r gorau yng Nghymru ac mae e wedi teithio'r byd fel aelod o dîm gwyddbwyll Cymru dros nifer o flynyddoedd.

"Yn yr Olympiad Gwyddbwyll Novi Sad (yn Serbia bellach) yn 1990 fe ddaeth yr anrhydedd uchaf i'w ran pan enillodd y fedal aur. Cyhoeddodd ef a minnau'r unig lyfr Cymraeg erioed i gael ei ysgrifennu ar wyddbwyll, yn dwyn y teitl, "A Chwaraei Di Wyddbwyll?" (Gwasg Gomer 1980). Mae gan lolo hefyd ddiddordeb mewn llên a gall lunio ambell englyn nawr ac yn y man."

Yn 2013, "fel cydnabyddiaeth am oes o berfformiadau nodedig fe'i dyrchafwyd i radd Meistr gan Ffederasiwn Gwyddbwyll y Byd," atgoffodd Idris Reynolds ni yn ei deyrnged i lolo, yn rhifyn mis Hydref 2021 o "Barn". Gallai dynnu lluniau o safon uchel gyda camera fel y dangosai ei luniau o'i hen ewyrthod, Isfoel (1881-1968), yn ei henaint, ac Alun Cilie (1897-1975), yn y cae ŷd. Yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd datblygodd yn englynwr crefftus. Bu'n aelod o dîm Talwrn y Beirdd Ffostrasol, yn gyd-aelod â'r diweddar Dai Pendre. Gweithiodd lolo dri englyn coffa i'w dad. Dyma'r cyntaf:

Mewn lle gwell mae 'nhad bellach – wedi'r boen

Wedi'r beunydd rwgnach,
I mi ni welir mwyach
Ei ben uwch teipiadur bach.

"O'r holl deyrngedau a dalwyd i T. Llew, mentraf awgrymu mai englynion lolo a fyddai wedi ei blesio fwyaf," dywedodd Idris yn 'Tua'r Gorllewin' – cofiant T. Llew Jones.

Hoffais englyn coffa Dai Pendre i T. Llew:

Er i'r haul droi i'r heli – un hwyrnos
Ar ôl diwrnod tanlli
Rhyw fodd mae'n dal i noddi
Ei naws i'n cynhesu ni.

Fel Dai ac amryw o lengarwyr ardal eang yng nghyffiniau Llangrannog, roedd lolo yn aelod o ddosbarth barddoniaeth dan arweiniad Idris yng Nghaffi Emlyn yn Nhan y Groes.

Cyhoeddwyd yn 2020 "Cerddi Dydd Mercher" – detholiad o gerddi aelodau'r dosbarth. Cyhoeddwyd pump o englynion gan lolo ac yn eu mysg un i Betty Campbell:

Ym mro lle'r oedd amrywiaeth o hilion
yn hawlio'u hunaniaeth
Merch ddi-nod mewn cyfnod caeth
A honnodd wneud gwahaniaeth.

Dawns-o-Gram Nadolig



Dydd Sul Rhagfyr 12ed
Sunday December 12th

Sir Caerffili, dechreuwch eich dathliadau Nadolig mewn steil gyda pherfformiad fyw arstepen eich drws sy'n addas i'r teulu cyfan. Bydd y perfformiad hyd at 10 munud.

Caerphilly County, start your Christmas Celebrations in style with a live door step performance suitable for the whole family. The performance is up to 10 minutes long.

Cysylltwch i sicrhau slot berfformio cyn - Contact to book a performance slot before
Rhagfyr 6 December

bethanjones@mentercaerffili.cymru



Colofn y Dysgwyr

Ann Lewis

Wel mae'r Nadolig yn dod yn fwy cynnar bob blwyddyn, fel mae pawb yn dweud! Ond fe gyrhaeddodd mis Rhagfyr ac fe ddechreuais i feddwl am ganu carolau. Oes gyda chi hoff garol?

Rydw i'n hoff iawn o hen garol gan Dafydd Jones o Gaeo, un o arweinwyr y Diwygiad Methodistaidd yn y ddeunawfed ganrif. Roedd e'n ffermwr ac yn borthmon ac yn ysgrifennu emynau gwych.

Pam rydw i'n hoffi'r garol? Efallai achos bod Dafydd Jones yn defnyddio delweddu bob dydd i ddisgrifio ystyr geni Crist. Pan oedd Crist yn marw i'n hachub ni, roedd fel oen yn mynd i'r lladdfa (*abbatoir*). Achos bod Crist wrth farw yn ein hachub ni rhag ein pechodau, mae e'n talu ein dyledion ac yn croesi neu ganslo ein biliau.

Wele cawsom y Meseia,
cyfaill gwerthfawroca ‘rioed;
darfu i Moses a’r proffwydi
ddweud amdano cyn ei ddod:
Iesu yw, gwir Fab Duw,
Ffrind a Phrynwyr dynol-ryw.

Hwn yw'r Oen, ar ben Calfaria
aeth i'r lladdfa yn ein lle,
swm ein dyled fawr a dalodd
ac fe groesodd filiau'r ne';
trwy ei waed, inni caed
bythol heddwch a rhyddhad.

Dyma gyfaill haedda'i garu
a'i glodfori'n fwy nag un:
prynu'n bywyd, talu'n dyled,
a'n glanhau a'i waed ei hun:
frodyr, dewch, llawenhewch,
diolchwch iddo, byth na thewch!

<i>arweinwyr: leaders</i>	<i>y Diwygiad Methodistiaidd: the Methodist Revival</i>	<i>y ddeunawfed ganrif: the eighteenth century</i>
<i>porthmon: drover</i>	<i>emynau: hymns</i>	<i>delwedddau: imagery</i>
<i>ystyr: meaning</i>	<i>achub: to save</i>	<i>pechodau: sins</i>
<i>dyledion: debts</i>	<i>wele: behold</i>	
<i>cyfaill gwerthfawroca: the most valued friend</i>	<i>proffwydi: prophets</i>	<i>Prynwr dynol-ryw: the Redeemer of mankind</i>
<i>gwaed: blood</i>	<i>rhyddhad: relief</i>	<i>haeddu: to deserve</i>
<i>clodfori: to praise</i>	<i>llawenhewch: rejoice</i>	<i>byth na thewch: never cease</i>

Ffair Nadolig Canolfan y Glowyr

Rhagfyr 4/5
10.00 – 6.00



Rhagfyr 11/12
10.00 – 6.00

Mynediad am ddim!

Dewch i gefnogi'r digwyddiad. Byddem wrth ein bodd yn eich gweld.

Gair bach i'ch atgoffa na fyddwn yn cyhoeddi

Rhifyn o “Cwmni” ym Mis Ionawr

Bydden ni'n hoffi derbyn erthyglau mis Chwefror erbyn yr

20^{fed} o Ionawr 2022

Diolch yn Fawr



Cwrw da Cymreig a Gwasanaeth Cymraeg

Enillodd Twt Lol yr hawl i nodi'r mesurau ar
wydr cwrw YN Y GYMRAEG. Y cwmni cyntaf i
wneud hyn!!

Daeth yr hawl i wneud hyn wedi brwydr galed
â Swyddogion Prydeinig y Trethi.

Ewch draw i Drefforest i brynu gwydrau – ac i'w
llenwi â chwrw Cymreig braf.

Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol Trefforest CF375YB.

www.twtlol.com

Ar agor: Dydd Iau 12:00 – 17:00

Dydd Gwener 09:00 – 18:00

Dydd Sadwrn 10:00 – 16:00

PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Dosbarthu a Golygydd Llundain: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Gweplyfr/ Face book:  Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

Hysbysebu: Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith

Gwefan: Menter Iaith SirCaerffili.cymru/ 

e-bost: [Golygydd@papurecwmni.cymru/](mailto:Golygydd@papurecwmni.cymru) benamarycwmni@yahoo.com

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn ôl gofynion golygyddol.



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*